Gair bach Bethlehem 43

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth – rhif 43 (Medi 2023)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Colli Alun

Dyn ei dras; dyn urddasol - yn raenus
Fe rannodd yn ddeddfol
Drwy ei nerth, yn ddi-droi'n-ôl,
Ei anian annibynnol.

Ar Awst 20fed bu farw ein cyn-weinidog, Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, yn 86 oed,. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch ym Methlehem, fore Llun Medi'r 4ydd, ynghyd ag oedfa wedi hynny yng Nghapel y Wenallt.

Yn ei eiriau agoriadol ym Methlehem, wrth gydymdeimlo â Rhiannon, Rhys a Sian, Betsan a Dylan, Jâms, Anna, Gwion, Manon a Madog, dywedodd Delwyn Sion, *"Does dim syndod bod y lle 'ma'n orlawn – fe gyffyrddodd Alun fywydau shwd gymaint o bobl mewn shwd gymaint o feysydd gwahanol."*

Yn y rhifyn hwn, (ar dudalennau 6 - 14) rydyn ni'n cynnwys detholiad o'r geiriau fynegwyd fel teyrngedau yn y ddwy oedfa.

Gwaith cerddorol newydd

Y Gwynfydau ar gân

Ydych chi'n barod am her newydd yr Hydref hwn ym Methlehem? Mae Eilir Owen Griffiths wedi bod yn brysur yn cyfansoddi gwaith newydd sbon fydd yn cael "Premiere Byd" yng Ngwaelod-y-garth.

Y dyddiad ar gyfer y perfformiad ydy:

Nos Sul, Tachwedd 26 am 6.00 yr hwyr

Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn darparu geiriau sy'n seiliedig ar Y Gwynfydau ac Eilir wedi bod yn cyfansoddi'r gerddoriaeth.

Wrth gwrs, fel yn y cyfan o berfformiadau'r gorffennol, bydd angen **ymarferion** ar gôr y capel.

Dyma'r dyddiadau dan sylw, i gyd yn dilyn oedfa'r bore – nodwch nhw nawr a cheisiwch fynychu cymaint ohonyn nhw â phosibl. Rydyn ni angen pob un llais!

15 Hydref - 11:30 - 12:30
22 Hydref - 11:30 - 12:30
29 Hydref - 11:30 - 12:30
5 Tachwedd - 11:30 - 12:30
12 Tachwedd - 11:30 - 12:30
19 Tachwedd - 11:30 - 13:30 (sesiwn hirach)

Yna, un ymarfer ar ddiwrnod y perfformiad:

26 Tachwedd
15:00 - 17:00 - Ymarfer
18:00 - 19:00 - Gwasanaeth/Perfformiad

Cofiwch! Cefnogwch! Canwch!

Suliau Bethlehem – Mis Hydref

01 Hydref – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

08 Hydref – Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul

15 Hydref – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones

22 Hydref – Oedfa Ardal Aelodau Pentyrch

29 Hydref – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams *(dim Ysgol Sul)*

Newyddion Bethlehem

Ann yn codi mil o bunnau

Mae Ann Passmore newydd gerdded drwy'r ddrycin ar ei phen-blwydd a chodi mil o bunnau at elusen. Dyma'r hanes gan Ann ei hunan:

"Penderfynais ddathlu fy mhen-blwydd eleni drwy gymryd rhan yn Nhaith Gerdded y Cof (Memory Walk) drefnwyd gan yr elusen Alzheimer ym Mharc Biwt. Ro'n i'n cofio hefyd am fy nhad Dewi Bonner bu farw o'r cyflwr dros ddeng mlynedd yn ôl.

Yn anffodus roedd y tywydd yn ddychrynllyd ar adegau ar fore'r daith, ond roedd popeth wedi'i drefnu'n dda iawn a wnes i orffen y daith heb broblem yng nghwmni fy nheulu a ffrindie. Erbyn hyn mae fy nghronfa i ar "Justgiving" tuag at yr elusen, wedi cyrraedd £1000. Diolch i aelodau'r Cwrdd Merched am gefnogi."

Os hoffech chi ychwanegu at gyfanswm Ann drwy 'JustGiving' yna cliciwch ar y ddolen isod:

https://www.justgiving.com/fundraising/cardiffmw23-annpassmore

Leah yn rhedeg eto y Sul nesaf!

Fis Hydref y llynedd roedden ni'n cynnwys hanes Leah Owen-Griffiths ac Esyllt Green yn rhedeg 13 o filltiroedd o gwmpas strydoedd Caerdydd yn yr Hanner Marathon blynyddol.

Ddydd Sul nesaf, Hydref 1af mae Leah am fentro eto.

Dyma ddywed Leah: "*Dwi'n codi arian at elusen Mind, sydd wedi bod yn gymorth mawr i ni fel teulu. Dyma'r linc i'r dudalen 'JustGiving' petai gan unrhyw un ddiddordeb cyfrannu at yr achos. Llawer o ddiolch.*" Leah's fundraiser for Mind (justgiving.com)

Gair gan Delwyn

"Bant â'r Cart!"

Mae'n dymor newydd! A do, fe aeth y plant (a'r athrawon!) yn ôl i'r ysgol, ac fe ddaeth yr Haf (wel, rhyw fath o Haf!) i ben, a bellach ma' tymor yr Hydref yn ei anterth, a'r Nadolig ar y gorwel. A gyda thymor newydd ma' gweithgarwch newydd, a dyddiadau newydd pwysig i'w nodi.

Diolch i Eilir, ry'n ni'n mynd i gael y fraint o ddysgu a pherfformio gwaith cerddorol newydd wedi'w seilio ar Y Gwynfydau. Bydd yr ymarferion yn dechrau ar ôl y cwrdd ar y 15ed o Hydref, ac yn parhau tan y perfformiad ar y 26ain o Dachwedd, am 6 o'r gloch yr hwyr. Felly, gantorion - paratowch! a chadwch y dyddiadau a gofalwch am eich lleisiau.

Yn dilyn Y Gwynfydau - ar y nos Iau canlynol, y 30ain o Dachwedd, mi fyddwn ni'n cynnal ein "Bake Off" Nadoligaidd, felly, chwi gogyddion - paratowch!!

Bydd y ddau ddigwyddiad yn gyfle i ni godi arian at ein helusennau eleni.

Yn ddiau mae 'na dymor o weithgarwch o'n blaen, a thymor o fwynhau, felly "Bant â'r cart" Bethlehem.

DELWYN.

Dathlu Priodas Aur!

Dyna hanes Joy ac Eifion Glyn, Pentyrch. Bu'r briodas yn Eglwys Sant Tomos, Llandudoch ar Fedi 1af, 1973 a'r neithior yng Ngwesty Llwyngwair, Trefdraeth. Llongyfarchiadau!

Croeso mawr i Noah

Llongyfarchiadau hefyd i Ieuan ac Angharad Wyn, ar enedigaeth eu mab, draw yn y Gorllewin. Fe gyrhaeddodd **Noa Llywelyn Wyn** ym mis Gorffennaf, ŵyr bach i Wyn a Heulwen Jones, Yr Eglwys Newydd - a brawd bach i Greta a Miriam.

CEFN LLWYFAN YM MODUAN

Mae aelodau Bethlehem yn cyrraedd pobman! Dyma i chi rai o'n plith ddaliwyd gan ein ffotograffydd tuag adeg y seremoniau ym Moduan yn nechrau Awst. (Ymddiheuriadau i'r gorseddogion eraill yn eich plith na lwyddodd y camera i'ch portreadu y tro hwn – gwell lwc tua Pontypridd y flwyddyn nesaf!)

O'r Archif

10 mlynedd yn ôl – yn y Cwrdd Diolchgarwch 2013

Oedfaon cyfnod yr Haf a dechrau Medi

Rhag ofn eich bod yn dymuno ail-ymuno â rhai o oedfaon yr haf, gynhaliwyd bob yn ail Sul gydag aelodau'r Tabernacl, Efail Isaf, dyma'r dolenni cyswllt i'r rhai sydd ar gof a chadw, diolch i Wyn Jones.

Gorffennaf 30
Dr Ian Hughes



https://youtu.be/_dSWpFFTVYc

Awst 27
Rhodri-Gwynn Jones.

www.youtube.com/watch?v=GoNME5qxLFY

Medi 3
Delwyn Sion – Cymun

www.youtube.com/watch?v=DardmlNvlMw

Medi 17 – Y Teulu Evans: Glenys, Medi, Olwen, Owain ac Anthony (ac emyn y plant gan Alys)
https://youtu.be/lHVhNOF-YoU

Yr Ysgol Sul **Heulwen Jones**

Diolchgarwch, Gwynfydau a Phantomeim

- Mae'r Ysgol Sul wedi dechre' nôl ers canol mis Medi ac y mae'n mynd i fod yn dymor digon prysur.
- Cynhelir **Gwasanaeth Diolchgarwch y plant a'r bobl ifanc** ar **8 Hydref** ac y mae'r paratoadau wedi cychwyn eisoes.
- Bydd yr Ysgol Sul yn ymuno yn **Y Gwynfydau** gan Eilir Owen-Griffiths **ddydd Sul 26 Tachwedd.**
- Yna byddwn yn dechre' ymarfer ar gyfer **y ddrama Nadolig** a gynhelir ar **17 Rhagfyr**.
- Rydym hefyd yn bwriadu mynd i weld y **Pantomeim yng Nghasnewydd** ar **5 Rhagfyr**, felly **dewch a'ch enwau i Lisa neu Leah os hoffech ddod gyda ni**.
- Ac y mae'r criw wedi cael eu clywed fwy nag unwaith ar Caniadaeth y Cysegr ar Radio Cymru erbyn hyn a gobeithio bod pawb wedi cael cyfle i wrando.

Bore Coffi

Codi £700 i 'Stafell Fyw Caerdydd

Mae Wynford Ellis Owen wedi anfon neges i fynegi ei ddiolch i bawb gyfrannodd at yr ymdrech i gefnogi'r 'Stafell Fyw. Roedd y sefydliad wedi trefnu i gynnal Bore Coffi yn Festri Bethlehem ar Fedi 23 gan fod angen dwy fil o bunnau i sicrhau parhad gwaith y Stafell Fyw led-led Cymru.

Dyma luniau rhai fynychodd yr achlysur. Bu eraill yn garedig iawn yn pobi cacennau ac yn gweini wrth y byrddau.

Y Cwrdd Merched **Shân Osborne**

O 78 i 80

Am destun gogleisiol! Beth oedd arwyddocâd y rhifau 78 - 80, sef testun sgwrs agoriadol Y Cylch Merched gan Ifan Roberts y mis hwn? Ar ôl cryn ddyfalu, datgelwyd nad oedran na dyddiad oeddynt ond yn hytrach 78 (revolutions per minute), cyflymder recordiau finyl cynnar - yr hen 78's. A dyna beth gawsom gan Ifan trwy gyfrwng geiriau, lluniau a cherddoriaeth, sgwrs ddiddorol yn crynhoi hanes sefydlu un o gwmnïau pwysicaf i farchnata'r gramoffon, cwmni 'The Gramophone Company' a esblygwyd yn ddiweddarach i'r enwog HMV.

Gwelwyd ôl ymchwil trwyadl Ifan i'r cysylltiad Cymreig â'r cwmni enwog. Cawsom hanes Edmund Trevor Lloyd Williams, gwr a anwyd yng Nghastell Deudraeth a oedd yn gyfreithiwr yn Llundain a fuddsoddodd £5000 (tua £800,000 yn arian heddiw) I sefydlu'r cwmni. Teithiodd o amgylch Ynysoedd Prydain a thu hwnt yn chwilio am artistiaid i'w recordio. Yn eu plith oedd gwraig o ardal Penrhyndeudraeth, Miss Madge Breese, a hi fu'r cyntaf I recordio yn Gymraeg (Hen Wlad fy Nhadau). Hefyd llwyddwyd I sicrhau cytundeb efo'r anfarwol Caruso, "superstar" y cyfnod, i recordio 10 disg am £100. Un arall o sêr y recordiau oedd Adelina Patti, Craig y Nos.

Yn goron ar y sgwrs cawsom wrando ar ddetholiad o gasgliad 78's Ifan. Yn sicr, y ffefryn oedd y dihafal David Lloyd yn canu Lausanne a'r mwyaf trawiadol efallai oedd recordiad o feirniadaeth o gystadleuaeth y Gadair yn cael ei thraddodi'n Saesneg! Ym marn Ifan y mwyaf gwerthfawr o'i recordiau yw un a brynodd yn y "Pumphouse" ar Heol Penarth am 50 ceiniog, sef Paul Robeson yn canu "Ar Hyd y Nos" o'r ffilm "The Proud Valley". Mae Ifan wedi addo anfon hon i Syr Bryn Terfel - un sydd â llais bron more ddwfn â Paul Robeson!

Diolch Ifan, nid yn unig am ein diddanu ond hefyd am ein haddysgu. Dechrau gwych i dymor newydd Y Cylch Merched (a Dynion)!

Teyrngedau i Alun

Gyda chaniatâd y teulu a'r rhai fu'n traddodi, rydyn ni'n cynnwys detholiad o'r teyrngedau roddwyd i'r diweddar Barchedig Ddr. R Alun Evans yn y ddau wasanaeth ar Fedi 4ydd, 2023.

Delwyn Sion oedd yn arwain y ddau wasanaeth i ddiolch am fywyd Alun - ym Methlehem, Gwaelod-y-garth ac yn yr Amlosgfa yng Nghapel y Wenallt. Dyma detholiad byr o'i eiriau yn ystod yr oedfaon.

Does dim syndod bod y lle 'ma'n orlawn – fe gyffyrddodd Alun fywydau shwd gymaint o bobl mewn shwd gymaint o feysydd gwahanol – o ddarlledu i Gymdeithas Y Cymod, o'r Eisteddfodau mawr a bach, i gapel mawr a bach ar hyd a lled y wlad, gan gynnwys y capel yng Nghwm Nant yr Eira, lle cynhaliodd oedfa ar y Sulgwyn yn ddi-dor am 68 o flynyddoedd.

Ond, 'na fe, un o fechgyn Sir Drefaldwyn oedd Alun, ond yn fwy na hynny, un o Lanbrynmair – a bydde chi 'di cael gwybod hynny o fewn dim i'w gwrdd. Un o blant "Yr Hen Gapel', Llanbrynmair aeth ymlaen i fod yn weinidog yng Nghapel Seion, Llandysul, cyn ymuno â'r Adran Grefydd yn y BBC.

Fe ddaeth yn wyneb cyfarwydd wedyn fel cyflwynydd "Heddiw" a hynny am 10 mlynedd, cyn dychwelyd i'r Gogledd yn Bennaeth ar y BBC ym Mangor. Ac yn y fan honno y des i ar ei draws e gynta' – Alun yn Bennaeth a finne'n gyw-cynhyrchydd Radio.

Ochr yn ochr â'i waith bob dydd, fe gyfrannodd yn helaeth i fywyd ein gwlad, yn Llywydd yr Annibynwyr, yn gefnogwr brwd i Gymdeithas y Cymod, Cadeirydd a Llywydd ac Arweinydd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Ac os nad oedd yn bresennol ym Moduan eleni, fe gyfrannodd i'r Ŵyl wrth lwyddo i gwblhau argraffiad newydd diwygiedig o'i gyfrol ar hanes Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn. Hyn oll a pharhau i gynnal y ffydd wrth bregethu ar hyd a lled y wlad ar hyd ei oes. Do, fe gyfrannodd a chyfrannodd a chyfrannodd.

A buon ni, aelodau Bethlehem, yn eithriadol o ffodus o'i gyfraniad pan ddaeth yn weinidog arnom ni – yma yn ein Tŷ Cwrdd. Mae gan Jacob Davies gerdd i'r Tŷ Cwrdd ac ynddi mae'r pennill yma:

"Crud ein breuddwydion yw'r tŷ hwn
A llais cariad fydd ei gerddi.
Hwn yw gweithdy'r enaid
A'i gynnyrch yw cymeriadau mawr
A gwasanaeth diflino."

Cymeriad mawr a gwasanaeth diflino – disgrifiad o Alun, os buws un erioed. Yn gyfathrebwr a phregethwr o'r radd flaenaf – wastad yn ddifyr, wastad â neges, wastad â "graen".

Ymddeolodd Alun, os ymddeol yw'r gair, achos parhau i gyfrannu a chefnogi wnaeth e, ac i ddathlu'r ymddeoliad fe ysgrifennodd Rhys Dafis "**Y Bugail Da**" i ddiolch iddo am ei wasanaeth yn ein plith:

Buost Alun inni'n fugail da,
Â ninnau'n braidd ar wasgar ein cynefin,
Ein llwybrau 'mhell fan draw, hyd ddôl a bryn,
Gwarchodaist ni bob un rhag ffos a dibyn,
A dangos llwybr at y gwir Fan Gwyn.
Buost Alun inni'n fugail da.

Buost Alun inni'n fugail da,
Â ninnau'n cael ein tynnu at bob gorwel,
A'n hudo'n rhwydd gan liw a braster gwair,
Dangosaist i'n gynhaliaeth lawn daioni,
Cyflwynaist ni i rin porfeydd y Gair;
Buost Alun inni'n fugail da.

Buost Alun inni'n fugail da;
Yn fugail da, boed alar, boed lawenydd,
Boed awel fwyn neu foed drycinoedd byw,
Dy alwad ddôi i'n harwain; ninnau'n dilyn
At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw;
Buost Alun inni'n fugail da,
Buost Alun inni'n fugail da.

Ein hysgrifennydd, Rhodri-Gwynn Jones, oedd yn cyflwyno'r deyrnged i Alun ar ran Bethlehem. Dyma ddetholiad o'i eiriau yn ystod yr oedfa.

"*Yn y dechreuad yr oedd y gair...*", ac yn ein perthynas ni ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, ag Alun, dyma fel y bu:-

Gair mewn llythyr, dyddiedig y 14eg o Fedi 2007, a anfonodd Ysgrifennydd Bethlehem ar y pryd, Rhys Dafis, i'r aelodau. Ynddo dywed fel hyn:-

"'*Rwy'n taro gair i roi* ***newyddion da*** *ichi ynglŷn â'n hymdrechion i sicrhau Gweinidog i Fethlehem...., casgliad unfrydol y Pwyllgor oedd y dylem droi at y Parch. R. Alun Evans i gymryd gofal am Bethlehem ar y cyd â Bethel, Caerffili. Gwnaethpwyd ymholiadau, a* ***chael ymateb brwdfrydig*** *ganddo ar unwaith.*

Roedd yn ***gyfarfod cynnes a llawn gweledigaeth ymarferol****, a chawsom ein llwyr argyhoeddi mai gydag ef y mae'r ffordd ymlaen. Ar yr un pryd, cafwyd cadarnhad gan ddiaconiaid Bethel o'u cefnogaeth lawn i'w ddymuniad a'u parodrwydd i gytuno trefn 'rannu a chydweithio' hwylus er budd y ddwy Eglwys.*

Mae hyn yn ***cynnig agor pennod newydd a chyffrous yn hanes Bethlehem****..."*

Ac fel y gwyddoch, fe drowyd "*y cynnig*" yn "*dderbyn*" gan y naill ochr a'r llall, ac fe wireddwyd y disgrifeiriau oedd yn neges Rhys i'r aelodau, yn "fuddsoddiad" o'r radd flaenaf ac a dalodd "ddifidend" gwell na fedrai'r un farchnad stoc o gwmpas y byd hyd yn oed freuddwydio amdano.

Oedd 'roedd yn "***newyddion da***". Do fe drowyd yr "***ymateb brwdfrydig***" yn weithred ganddo. A do, fe deimlwyd "***cynhesrwydd****"* ei argyhoeddiad, a throwyd "***y weledigaeth ymarferol***" yn ffaith o Sul i Sul yn ei gwmni. Ac yn ddiymwad, agorwyd "***pennod newydd a chyffrous yn ein hanes***."

Dechreuodd ar ei weinidogaeth ym Methlehem ym mis Ionawr 2008, ond yn ôl trefn (anysgrifenedig, prysuraf i ddweud) pobl Bethlehem, bu'n rhaid disgwyl tan y 19eg o Ebrill cyn cynnal y Cyfarfod Sefydlu!

Yn ei eiriau ei hun yng nghylchlythyr y Capel ar y pryd, "Newyddion Bethlehem", rhifyn Gwanwyn 2008, meddai:-

"*Ganol Ebrill y cynhelir y Cwrdd Sefydlu. Bydd yn dda iawn cael croesawu pawb i'r oedfa honno. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan bydd brodyr y diweddar Rhys Tudur – Geraint yn Ysgrifennydd yr enwad ac Alun yn gymydog yng Nghaerdydd, Huw Ethall, cofiannydd R G Berry ac un sy'n "myned yn iau wrth fyned yn hŷn", Eifion Powell, cyn Brifathro Coleg yr Annibynwyr ac un y bum yn rhannu stafell gydag ef yng Ngholeg Bala - Bangor. Ac yna ddau o "fois Bala-Bangor" – Elwyn Jones, cyn gydweithiwr yn y BBC a chefnogwr tîm peldroed Wrecsam, a Dewi Myrddin Hughes, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, a chefnogwr pybyr tîm peldroed Abertawe. Yn y fath gwmni does ryfedd bod angen Presbyteriad rhadlon, Cynwil Williams, i fendithio'r cyfan*."

Bu i Ifan Roberts ail-fyw peth o brofiadau'r Cyfarfod Sefydlu yn ei gyflwyniad wrth i dymor Alun fel ein Gweinidog ddod i ben:-

Bu'n arddangos nifer o 'gardiau post' yn yr oedfa – gan nodi ambell achlysur neu atgofion o'r daith hapus a hwylus yr oeddem wedi ei mwynhau yng nghwmni Alun. Meddai – "Dyna i chi'r llun hwnnw o'r cyfarfod sefydlu - ar y pnawn Sadwrn y collodd y Swans o ddwy gôl i un yn Yeovil Town.

Ar yr un diwrnod, yn y Mericia, roedd y Pab Bened yn pregethu yn Eglwys Gadeiriol Efrog Newydd. Ond drwy lwc, wnaeth hynny ddim denu aelodau Gwaelod-y-garth.

'Roedd hi'n dŷ llawn yma ar gyfer y cyfarfod sefydlu.

O fewn dim wedi hynny, roedd hi'n Gymun Mawr Mis Mai – a golygfa i'w chofio oedd derbyn 13 o aelodau ifanc. Ym myd y cyfryngau, mae hi'n ffasiynol iawn i fesur llwyddiant y dyddiau hyn yn ôl ffigyrau gwylio a gwrando. Ond mi ddywed y rhai sy'n deall yn well, mai'r hyn ddylech chi fesur ydi'r "**gwerthfawrogiad**".

Yn sicr, mae cynulleidfaoedd Bethlehem wedi gwerthfawrogi'r hyn y 'roedd Alun wedi ei ddweud wrthon ni ac wedi wneud efo ni.

Beth bynnag fo'r achlysur – ar adegau o lawenhau ac o alaru, y llon a'r lleddf yn ein bywydau ni, bu'n dewis ei eiriau'n ddoeth ac yn gynnil, eu mynegi'n ddidwyll a bu ei ymweliadau â chleifion a theuluoedd i gyd yn rhai cysurlon. Mae'r cyfeiriad at "**ddoethineb**" a "**chynildeb**" yn adlais o'r hyn a ddywedodd Alun ei hun "O Gadair y Golygydd" yn un o gyfrolau "Rhwng Gwyl a Gwaith".

Sôn yr oedd am "y *grefft o sgrifennu ar gyfer cynulleidfa anweledig."* Ac meddai*,*

"Mae'r ymennydd yn sganio pob pymtheg eiliad am rywbeth mwy diddorol i ganolbwyntio arno. Dyna'r her, cadw diddordeb y gwrandäwr ar waetha pob gwrth-atyniad. Rhaid dewis beth sy'n rhaid ei ddweud gan reoli

faint y gall gwrandäwr ei dderbyn. Mae'r darlledwyr gorau yn gwybod sut a ble i ddechrau, sut a ble i orffen a gwybod beth i'w adael allan."

Geiriau o gyflwyniad mewn cyfrol, ond rhai a gafodd, yn ystod ei Weinidogaeth, eu cymhwyso ar gyfer ein perthynas yma ym Methlehem rhwng Gweinidog a'i gynulleidfa.

Mae'n debyg i John Wesley unwaith yngan y geiriau:- "*O Dduw na ad i mi fyth fyw i fod yn ddiwerth*"

Ac yn ôl Richard Whatley:- "*Pregetha nid am fod rhaid i ti ddweud rhywbeth, ond am fod rhywbeth gennyt ti i'w ddweud*."

Yn sicr nid diwerth bywyd Alun, ac oedd, 'roedd ganddo rhywbeth i'w ddweud wrthym ni ym Methlehem, a phob Bethlehem a Bethel arall yr ymwelai a hwy dros Gymru benbaladr a thu hwnt i Glawdd Offa.

'Rwy'n dweud hynny oherwydd i mi, ar hap y dydd o'r blaen, ddod ar draws dogfen y byddai'n ei chyflwyno i'r Cwrdd Diaconiaid ac a roddai flas ar y "dyletswyddau", sef yr hyn yr oedd wedi bod yn ei wneud ar ein rhan yn ystod y misoedd blaenorol.

'Roedd hon yn perthyn i'r cyfnod rhwng Mehefin hyd at Fedi 2012. 'Roedd yn llawn hyd at yr ymylon gan nodi priodasau, angladdau, bedyddiadau, ymweliadau, anerchiadau, darllediadau, a mwy.

Byddai hefyd yn rhestru rhai o'r dyletswyddau i ddod o fewn y misoedd nesaf, a rhwng y mynych Gyrddau Diolchgarwch a Chyrddau Pregethu fyddai'n dilyn yn yr Hydref, dyma'r sylw canlynol:-

- 8fed o Ragfyr : priodas Owen a Celine yn Lille;
- 9fed o Ragfyr: yn ôl o Lille erbyn yr oedfa gymun am 5:00 p.m. yr hwyr (os Duw ac Euro Star a'i myn).

Byddai'r direidi yna yn cael ei adlewyrch yn aml mewn oedfa ac ar dudalennau cylchlythyr Bethlehem - "Newyddion Bethlehem" ac wedi hynny "Gair Bach Bethlehem".

Mewn un oedfa, fe feiddiodd fynd mor bell un tro a throi i fyny i bregethu heb shefio – a gwaeth, pan sylweddolodd hynny, yn ystod ei air wrth y plant fe dynnodd ei fag molchi allan, rhoi'r sebon ar ei fochau a shefio yn y set fawr, a llwyddo i wneud y cyfan heb dynnu gwaed!"

Rhoddwyd delwedd gyfoes i "dy wialen a'th ffon a'm cysurant" yn ogystal, a bu ei ffon fugail a'i wialen bysgota yn brops defnyddiol ar wahanol adegau wrth iddo annerch y plant cyn iddynt droi at yr Ysgol Sul.

'Roedd wrth ei fodd yn eu cwmni, fel y croniclwyd ganddo yn un o'r cylchlythyrau:-

"'*Rhen blant, mae eich gweld yn dod i Fethlehem yn rhoi cymaint o bleser i mi. Bonws yw eich clywed yn adrodd adnodau a phenillion. Cofiaf un yn gadael y sêt fawr cyn i mi ddod ato gan ddweud yn bwdlyd 'mae hwn'na wedi deud fy adnod i' - *dyna'r fersiwn boleit o be ddwedodd e!]"*

'Roedd hefyd wrth ei fodd yn rhan o gyflwyniadau Nadolig y plant – byddai stori berthnasol fel rhan o'r gwasanaeth ar fore'r Nadolig bob amser yn werth gwrando arni, a 'roedd mynych ymddangosiadau yn y Dramâu Nadolig yn plesio yn arw – os cofiaf yn iawn ei 'rôl olaf oedd portreadu Dafydd Wigley mewn cynhyrchiad o "Nadolig Pawb a'i Farn". (A Megan Thomas yn portreadu Betsan Powys yn yr un cyflwyniad!)

Bu'n croniclo mwy o ddireidi hanes ei blentyndod yn Llanbrynmair a'i ddyddiau coleg, yn y cylchlythyrau diweddaraf a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod clo:-

- Wyddech chi ei fod wedi cael ei ddal yn dwyn 'fale o berllan Dol'ronnen gan neb llai na Nain Dafydd Iwan?
  "*Gan eich bod chi'ch dau yn leicio fale cymaint," medde Mrs Griffiths, "fe gewch chi lenwi'r bwced 'ma i mi a'i gario yn ôl i Ddôl'ronnen." Gafaelai Dic yn nolen y bwced efo'i law chwith; minnau efo'm llaw dde. Roedd hynny'n gadael un fraich yn rhydd. Cerddem gam y tu ôl i Mrs Griffiths ar hyd y ddau gae, gan ymestyn efo'r fraich a'r llaw rydd, tu ôl i'n cefnau, i godi fale o'r bwced a llenwi'n pocedi. Wedi cyrraedd y tyddyn, a rhyw wên hunan-fodlon ar ein hwynebau ein bod ni wedi bod mor glyfar, meddai Mrs Griffiths "fe gewch chi lenwi'ch pocedi rŵan." O! Y fath gywilydd. Ac mae hwnnw'n para hyd heddiw."*
- 'Roedd yn ffyddlon ei gefnogaeth i'r Cwrdd Merched ym Methlehem, a byddai edrych 'mlaen at ei anerchiad blynyddol fel rhan o'r calendr:-
  Un tro bu iddo ddewis "Eldorado" fel teitl i'w gyflwyniad. Pam "Eldorado" tybed? Wel, am ei fod, pan yn 11 oed, wedi bod yn gwerthu hufen ia o'r enw "Eldorado" yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau yn 1949, a hynny yn ei dro yn dechrau'r cysylltiad hir a gwerthfawr a'r Eisteddfod Genedlaethol.

- A wyddech fod ganddo feic lliw "periwinkle blue" pan oedd yn y coleg, ac ar hwnnw y byddai'n mynd o Fangor, weithiau mor bell a Dolwyddelan, i gadw oedfa ar y Sul – a seiclo yn ei siwt ddydd Sul rhan

amlaf! Sôn yr oedd yn yr erthygl arbennig honno mai un o'i gas-bethau oedd bod yn hwyr i gyhoeddiad. "Mae'n well gen i fod hanner awr yn gynnar na hanner munud yn hwyr".

A wyddech iddo werthu'r beic a phrynu "hen fen GPO"? Adroddodd stori am daith ynddi o'r Ganllwyd i bregethu yng Ngwyddelwern :-

"*Wrth ymuno â'r A5 yn y Ddwyryd rhoi fy nhroed ar y brêc. Dim yn digwydd, na dim yn dod i nghyfarfod i mwya'r lwc. O fan'no ymlaen, dreifio ar y brêc llaw. Cyrraedd yn hwyr a'r gynulleidfa ar ei thraed yn canu'r ail emyn 'O rho dy law i'r ieuanc sydd yn colli'r ffordd ar ganol dydd ...' Stori wir, a gwir hefyd na chefais i erioed wahoddiad arall i bregethu yng Ngwyddelwern*!"

- Ac a wyddech chi am ei ddoniau fel cogydd?
  "*Byddai Rhiannon yn cofnodi rysetiau gan hwn a'r llall, a'i llygad at y dyfodol. Priodi yn 1961 a'r Nadolig cyntaf i ni ein dau oedd yn Llandysul. Minnau, o weld ei phrysurdeb yn y gegin, yn gofyn i Rhiannon 'Oes rhywbeth y galla' i wneud.' 'Oes' oedd yr ateb, gan estyn y llyfr rysetiau 'Cer i 'neud ffyj'. ....Mae'n edrych mor syml. Ond ... wel..., gofynnwch i Jâms ac Anna, i Manon a Madog sut gwc yw Taid.* "
- Ac, fel y gwyddom, fel yr awgrymwyd ar y cychwyn, 'roedd i bêl-droed le pwysig yn ei fywyd hefyd.
  Dyma gofnod eto o'i bytiau mewn un cylchlythyr:-
  "Roeddwn i yn y pulpud yn y bore ac yn y gynulleidfa y pnawn. 2013 oedd y flwyddyn, a minnau'n cofnodi - Bethlehem y bore; Hermon, Treorci yn y pnawn. Bethlehem y bore, Yr Hendy pnawn. Bethlehem y bore, Jewin pnawn .... Ac ar Chwefror 24ain – Bethlehem y bore, Wembley pnawn [beth ddwedai'r Tadau?].
  Yn fan'no hefyd fe gafwyd ysbrydoliaeth! Abertawe yn ennill"
  Ac yn goron ar y cyfan, fe'i cyflwynwyd a chrys peldroed y Swans yn ystod un o'r oedfaon ym Methlehem, gyda'i enw "Evans" a rhif 1 ar ei gefn!

Fe soniais eisoes bod "tudalennau'r calendr arferol yn cael eu troi'n arafach ym Methlehem nac yn y byd mawr prysur tu allan."

Dyna egluro pam iddi gymryd ymron i flwyddyn wedi ymddeoliad Alun i'r eglwys drefnu eu syrpreis o gydnabyddiaeth iddo mewn oedfa. Comisiynwyd Rhys Dafis, ein cyn-ysgrifennydd, i gyfansoddi geiriau, cerddoriaeth gan Ieuan Wyn, enillydd Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013, a gwaith celf gan y llythrennwr Ieuan Rees o Fetws, Rhydaman.

I goroni'r cyfan bu Côr Merched Bethlehem yn canu'r cyfansoddiad arobryn yn yr oedfa.

Dymuniad Alun oedd i unrhyw dysteb adeg ei ymddeoliad gael ei gyfrannu at weithgareddau elusennol ym maes adfer y galon.

"*Byddaf y mynd i'r gampfa bob bore Llun a bore Gwener dan gynllun adfer y galon. Trefnwyd bod rhodd Bethlehem i'w gwario ar hyfforddi mwy o therapyddion adfer y galon ac i anfon therapyddion Caerdydd ar gyrsiau hyfforddi*."

A'i sylw wrth ymddeol:-

"*Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla' i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na'r saith mlynedd ddiwethaf. Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig. I mi, mae'n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!*

Ond nid gorffen chwaith gan mai fy mwriad yw parhau f'aelodaeth ym Methlehem cyn belled na bydd hynny'n dramgwydd i'm holynydd. Diolch o galon am eich caredigrwydd. ….. Wela i chi flwyddyn nesa, o'r meinciau cefn."

A dyna fu'n hanes ers hynny – cip ar y meinciau cefn, draw yn y rhes ar y chwith i mi - "*Ydi mae Alun yma*" – a'i bresenoldeb yn ein mysg o Sul i Sul yn rhoi rhyw hyder tawel a sicrwydd i ni ein bod yn dilyn y llwybrau yr oedd ef wedi ei braenaru ar ein cyfer.

Fe fynnodd gadw ei addewid i dywys criw Drws Agored ar daith i fro Ann Griffiths wedi ei ymddeoliad (gan ddechrau hefo paned a chacen yng Nghregynnog).

Fe ŵyr y rheini ohonoch a oedd yn bresennol yn yr oedfa ym Methlehem ar Sul olaf mis Awst i mi sôn am y nodyn olaf a dderbyniais i oddi wrth Alun ar ddechrau mis Awst, a minnau'n ceisio ail-drefnu dyddiad ar gyfer Cwrdd Diaconiaid Bethlehem oedd:- "*Fel mae pethau, ymddiheuriadau ymlaen llaw*." RAlun.

‘Does dim rhaid ymddiheuro, Alun – gwyddom na fedri fod yn ein mysg yn y cnawd - ond fe fyddwn yn ymwybodol iawn o’th bresenoldeb yn ein plith – ymhob gweddi ar gychwyn y cyfarfod; ym mhob awgrym cynnil yn ystod y drafodaeth; ymhob oedfa a chyflwyniad a chyngerdd; ymhob Drama Nadolig a Phlygain; ymhob Cwrdd Merched a Drws Agored; ymhob her a fydd ar ein llwybr wrth i ni gamu ‘mlaen o’n dathliadau diweddar i nodi 150 o flynyddoedd ers agor yr adeilad presennol.

Buost yn ddiwyd, yn paratoi, yn drylwyr a phwrpasol, yn ôl dy arfer, ar gyfer yr oedfa honno ar Sul y 25ain o Fehefin a fu’n glo ar y dathliadau.

Cefaist gymeradwyaeth ar ddiwedd yr oedfa gan y gynulleidfa niferus y bore hwnnw oedd nid yn unig yn adlewyrchu’r gwerthfawrogiad o’r oedfa arbennig a gafwyd, ond yn gydnabyddiaeth deilwng o’th bresenoldeb a’th gyfraniad yn ein plith, fel Gweinidog, ac wedi’r ymddeoliad, fel cyfaill i bob un ohonom.

“Iesu’r Cymod” oedd teitl dy Anerchiad Lywyddol yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymreig ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2014, a meddet:-

“*Diddymu rhaniadau y mae cymod yr Efengyl. Daeth Iesu i’r ddaear i amlygu i ni ffordd o fyw ac o feddwl fyddai’n ein dwyn i berthynas newydd a’n gilydd ac i berthynas newydd a Duw. Casglodd o’i gwmpas griw bach o bobl gyffredin, criw digon gwahanol o ran ei natur. Fe’i hysbrydolodd a’i weledigaeth, ac ymddiriedodd ynddynt. Nid oes gwell ffordd i’r nefoedd na bod yn gymdeithas gariadus, oddefgar a chymodlon.*.”

Diolch Alun am yr her – diolch am y cyfeiriad – diolch am bopeth - ar ran pobl Bethlehem - a phobl Bethel, Caerffili.

Ac i gloi, dyma adrodd englyn y Dathlu, o waith Rhys Powys, y gwn, o sgwrsio a’r ddau, Rhys ac Alun yn eu tro, eu bod wedi pwyso a mesur pob gair yn ofalus cyn eu gosod o fewn 30 sill y gerdd:-

“Yn y Gwaelod, gyda’n gilydd – y down
I Dŷ llawn llawenydd;
Hafan ddiffwdan ein ffydd,
Manna yng nghysgod Mynydd.”

Mae Tŷ Cwrdd Bethlehem, Tŷ’r Bara, wedi elwa ar ei ganfed o gael rhannu a bwyta’r “manna” yng nghwmni Alun. Diolch amdano.

Rhodri-Gwynn Jones

Ei gyfaill, Emlyn Davies, Pentyrch, o ddyddiau'r rhaglen "Heddiw" ac o gyd-bysgota fwy diweddar, gyflwynodd yr ail deyrnged yn y gwasanaeth ym Methlehem. Dyma ddetholiad o'i eiriau yn ystod yr oedfa.

Os ydach chi am ddod i nabod rhywun yn dda, fy nghyngor i fyddai hyn: Ewch i bysgota efo nhw. Pan fo person ar lan afon yn chwipio’r dŵr, weithiau’n brwydro yn erbyn yr elfennau, ar adegau yn oer hyd at ei esgyrn, yn teimlo’n ddigysur, a’r amynedd yn brin, buan y dewch chi i weld beth ydy gwir ruddin dyn. Ac mi fûm i yng nghwmni R. Alun mewn pob math o amgylchiadau, a’r cyfan welais i oedd yr anwylaf o blant dynion, yn hawddgar, rhadlon a doeth, a bob amser yn barod ei gymwynas.

Mi ddois i’n ffrindiau efo Alun hanner cant a phump o flynyddoedd yn ôl, yn 1968, pan ddechreuais i fel ymchwilydd ifanc ar y rhaglen 'Heddiw' yng Nghaerdydd, ac Alun ar y pryd yn gynhyrchydd yn yr Adran Crefydd, wedi bod yn y swydd honno ers 1964, ac yn canolbwyntio’n arbennig ar gyfres o’r enw ‘Addola Dduw.’ Ar y pryd, roedd o’n gweld y swydd fel gweinidogaeth amgen, datblygiad pellach o’i waith yn Seion, Llandysul.

Yn 1969 fe ddaeth Alun yn un o gyflwynwyr sefydlog *Heddiw,* ac fe enillodd edmygedd pob un ohonom ni o weld pa mor feistrolgar oedd o. Wrth lunio sgript, o ran cyflwyno i gamera, yn ei holi treiddgar ac yn ei ddadansoddi deallus, roedd o’n athrylith wrth ei waith.

Dyna’r flwyddyn y dechreuodd o arwain ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd, a bu’n gwneud hynny’n ddi-dor tan 1996. Eisteddfod Dolgellau 1949 oedd ei Steddfod gynta fo fel ymwelydd, ac roedd o’n gweithio yn fanno hefyd: nid ar y llwyfan nac o flaen unrhyw feicroffon, ond yn fachgen deuddeg oed, gwerthu hufen ia ar y maes yr oedd o. Wn i ddim faint o ddyn busnes oedd o, ond mae gen i ofn chafodd o ddim adnewyddu ei gytundeb ar gyfer Steddfod Caerffili 1950, gan nad oedd o yn y fan honno. Yn wir dim ond tua tair Steddfod gollodd o ar hyd ei yrfa. Fel y gwyddom ni i gyd yn dda, mi fu ei gyfraniad i’r Steddfod, yn gyhoeddus a thu ôl i'r llenni, yn ddisglair tu hwnt: yn gadeirydd y Cyngor, Llywydd y Llys a chadeirydd y Bwrdd Rheoli a chael ei

ddyrchafu'n Gymrawd. Mi sgrifennodd o ddwy gyfrol ar gyfer y Steddfod, sef hanes y Rhuban Glas a hefyd 'Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn' llyfr a ddiweddarwyd ganddo ar gyfer y Steddfod eleni.

Mi fu'n gymwynaswr mawr i'r Urdd hefyd, wrth gwrs, ac yn un o arweinwyr Eisteddfod Llangollen am chwarter canrif. Dipyn o record! Ond nid dyn cyhoeddus ffurfiol, stiff a hunan-bwysig mo Alun o bell ffordd yn nage. Roedd o'n llawn hiwmor yn doedd, yn ffraeth ac yn chwim ei feddwl. Ac mi fyddai'n tynnu coes yn ddi-stop tra bydden ni'n pysgota.

Y gyrchfan fwyaf poblogaidd i ni i bysgota dros y blynyddoedd diwethaf fyddai Cwm Wysg, reit ar y ffin rhwng Powys a Sir Gaerfyrddin, yn y mynyddoedd uwchben Trecastell. Erbyn mynd dros y Bannau mi fydden ni'n cyrraedd Pont Senni, ac yn ddieithriad mi fyddai yna rhyw sylw i'w wneud am y rhaib a fu ar yr Epynt. Roedd Alun wedi sgrifennu wrth gwrs am ymweliad Iorwerth Peate, un arall o fechgyn Llanbryn-mair, â'r ardal yn ystod y dyddiau olaf rheiny, ym mis Mehefin 1940, pan oedd y teuluoedd olaf yn gadael eu cartrefi yn eu dagrau. Mi dynnodd luniau o deuluoedd Hirllwyn a'r Waun Lwyd ac meddai Alun am hynny, "Mynd a'i gamera yn ei law ond tynnodd lun mewn geiriau ingol o faes brwydr a gollwyd."

Doedd y frwydr ddim drosodd o bell ffordd i Alun ei hun. Roedd ei heddychiaeth yn rhan annatod o'i bersonoliaeth, yn greiddiol i'w Gristnogaeth. Pan gafodd ei ddyrchafu i fod yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, teitl ei anerchiad o o'r gadair ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd 'Iesu'r Cymod', a hynny yn y flwyddyn 2014, ar yr union adeg pan oedd yna bwyllgor Cymreig newydd gael ei sefydlu i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd ei dad yn heddychwr wrth gwrs, ac felly Wynn ei frawd, ac roedd Alun yn gwbwl bendant mai sail ei heddychiaeth oedd y ffaith mai efengyl y cymod ydy efengyl Iesu Grist, Ac mi fyddai'n dweud yn aml nad absenoldeb rhyfel ydy heddwch, ond yn hytrach presenoldeb egnïol cariad anorchfygol Iesu Grist yn y byd.

Yn ei anerchiad fel llywydd Eisteddfod Meifod a'r Gororau yn 2015, mi osododd her i'r eisteddfodwyr i gefnogi'r Academi Heddwch ac i ystyried arwyddocâd y floedd o 'Heddwch' yn ystod seremonïau'r Orsedd.

Mi gafodd bleser aruthrol yn trefnu'r gyfrol *Heddwch yn y Ddinas*, sef y gyfrol yn adrodd hanes y mannau hynny yng Nghaerdydd sy'n rhan o stori'r dyhead am heddwch byd-eang, ac yntau'n cydweithio efo John Gower ac Elinor Wyn Reynolds. Ond un o'r uchafbwyntiau iddo fo oedd bod yna ap ar eich ffôn fyddai'n cyd-fynd â'r gyfrol i gael clipiau bach ychwanegol o wybodaeth trwy droi'r cyfan yn brofiad rhyngweithiol, digidol. A dyna danlinellu parodrwydd Alun i fod yn hyblyg, yn eangfrydig ac i gofleidio'r dechnoleg newydd.

Pan fyddem ni'n mentro ychydig ymhellach na'r arfer i bysgota, ac yn crwydro'n ôl i ganol Mwynder Maldwyn, at Lyn Clywedog, mi fyddai Alun yn tynnu blwch arbennig o'r bag pysgota, a'r geiriau 'Plu'r Pendefig' wedi ei ysgrifennu arno. Y 'pendefig' oedd Wynn, y brawd hŷn, a fu'n gymaint o ddylanwad arno.

Roedd Wynn wedi cyhoeddi yn dair ar ddeg oed ei fod am fynd yn genhadwr, a does ryfedd efallai bod Alun, ac yntau yn chwech oed, yn dweud wrth bawb ei fod am ddilyn ei dad a'i frawd i'r weinidogaeth. Mi gafodd ei demtio i fynd i gyfeiriad gwahanol yn nes ymlaen, yn yr Ysgol Uwchradd ym Machynlleth ac yn y coleg yn Mangor – byd y theatr oedd yn denu bryd hynny, ac mi gafodd brofiadau gwerthfawr hefyd yn actio mewn dramâu radio yn Neuadd y Penrhyn yng nghwmni rhai fel Charles Williams a'i debyg. Ac er cymaint roedd o'n mwynhau hynny, mi fu dylanwad Gwilym Bowyer ac R Tudur Jones yng Ngholeg Bala-Bangor yn drech na rhamant unrhyw lwyfan na theatr yn y diwedd. A'r pulpud a gariodd y dydd.

Alun yr actor yn y rhes flaen – cast "Y Tad a'r Mab" gan John Gwilym Jones. (Dau o'i gyd-genhadon o blith yr Annibynwyr – Derwyn ac Elwyn - ac Alwyn Pleming, ei was priodas, ydy'r gwrywod eraill yn y llun.)

Efallai na ddaeth Alun ddim i enwogrwydd mawr fel actor, ond mi alla i eich sicrhau chi iddo wneud argraff cwbl ysgubol mewn un cyfeiriad. Un noson, roedd cwmni Chwaraewyr Coleg y Gogledd yn perfformio un o ddramâu John Gwilym Jones mewn festri capel yn un o drefi'r Gogledd Ddwyrain, ac roedd na athrawes ifanc, ddeniadol, wedi teithio o dref gyfagos i weld y cynhyrchiad. Ar y diwedd mi aeth hi a'i ffrind draw i'r cefn i gyfarfod â rhai o'r actorion, ac yn sgil y sgwrsio a'r tynnu coes, mi ddaeth Alun a Rhiannon yn eitem. Ac am dros drigain mlynedd wedyn mi fu'r ddealltwriaeth a'r cyfamod rhwng y ddau yn sail gadarn i berthynas gariadus, gefnogol, wirioneddol hardd.

I unrhyw bysgotwr da, mae'r paratoi yn hanfodol er mwyn perffeithio'r grefft yn y modd mwyaf cywrain posib. Ac wrth gwrs, dyna'r union gyneddfau y byddai Alun yn eu hogi a'u mireinio wrth siarad yn gyhoeddus, boed hynny yn y pulpud, ar deledu, mewn noson efo Pedwarawd y Wenallt, ar lwyfan Eisteddfod neu wrth gyflwyno Caniadaeth y Cysegr ar y radio hyd yn ddiweddar iawn. Mi fyddai 'na baratoi manwl, saernïo celfydd ar y brawddegau, a dewis gofalus o'r gair iawn. I'r anghyfarwydd mae'n siŵr bod y traddodi'n ymddangos fel pe bai'n fyrfyfyr, yn dod o'r frest heb feddwl ddwywaith. A dyna gamp y meistr wrth gwrs, a hynny o ran parch i'w gynulleidfa.

Mae Betsan a Rhys yn adrodd stori amdanyn nhw'n deffro ryw fore Sul pan oedden nhw'n fach, yn byw yn Lakeside, a sylweddoli ei bod wedi bwrw eira dros nos, a hwythau'n llawenhau ac yn methu aros i gael mynd allan i wneud dyn eira. Ond dyna siom oedd gweld Alun yn estyn y wellingtons ac yn cyhoeddi y bydden nhw'n cerdded i Minny Street. A phan gyrhaeddon nhw yno, doedd neb arall ar gyfyl y lle. Alun yn eu gosod i eistedd yn y festri, a Rhys a Betsan yn dechrau meddwl tybed oedden nhw am gael pregeth neu beth. Ond yr hyn wnaeth Alun oedd agor y Beibl, aros am ychydig, ei gau drachefn a deud pa mor bwysig oedd hi bod y Beibl yn cael ei agor bob Sul.

Yr egwyddor o ddyletswydd. Cadw addewid a chyflawni dyletswydd. Pan oedd Rhiannon ac Alun yn dathlu pen-blwydd eu priodas ddiemwnt, mi aethon nhw â'r teulu i gyd i ardal Llanbryn-mair i weld hen gynefin Alun, ac roedd yn rhaid mynd am dro i gapel Biwla, Cwm Nant yr Eira, lle roedd Alun wedi bod yn pregethu bob Sulgwyn yn ddi-dor am dros drigain mlynedd, a'i dad a'i frawd o'i flaen. Mae 'na lun o'r achlysur, ac Alun yn ei grys Swans efo Beibl agored o'i flaen unwaith eto. Roedd hynny mor bwysig. Ar y wyneb-ddalen y Beibl mae'r arysgrif yn tystio mai rhodd oedd o gan Niclas y Glais. Ac mi gawn ni wybod ei fod wedi ei drosglwyddo i'r capel ar ran Niclas y Glais gan y Parchedig Robert Evans, sef tad Alun. Roedd Niclas y Glais, y pregethwr a'r bardd a'r Comiwnydd, yn ffrind personol i deulu Alun, ac yn wir, yn Llanbryn-mair y cafodd ei arestio ym 1940, cyn ei garcharu am bedwar mis am ei fod yn heddychwr. Yn ddiweddarach fe glywodd tad Alun bod na gryn bwysau ar heddlu Sir Drefaldwyn i'w arestio yntau fel heddychwr, ond roedden nhw ofn y byddai yna wrthwynebiad gan y bobol leol i hynny.

Mae'n ddiddorol mai yn Llanbryn-mair y digwyddodd y bennod hon. Mae Iorweth Peate wedi sôn llawer am draddodiad Llanbryn-mair, sef yr awydd i warchod yr adwy i amddiffyn yr ardal rhag Seisnigrwydd a rhag gormes y landlordiaid, ac mi gofiwn ni am bobol fel S.R. – Samuel Roberts, oedd yn weinidog ar yr hen gapel mewn oes gynharach ac oedd yn enwog am ei radicaliaeth a'i heddychiaeth. Ac roedd Alun, a'i dad a'i frawd yn ffitio i'r un ysbryd.

Pan fyddai Niclas y Glais yn dod i Lanbryn-mair, mi fyddai'n dod â gefel bedoli yn ei boced, ac mi fyddai'r Alun bach, chwech oed, yn gorfod eistedd yn llonydd wrth fwrdd y gegin ac, yn aml, yn cael tynnu dant. Felly pan fyddai Alun yn clywed enw Niclas y Glais, teimladau go gymysg fyddai yna yr adeg honno.

Dw i wedi sôn llawer am Alun fel darlledwr, fel pregethwr, fel dyn y steddfod, fel pysgotwr, fel awdur. Mi enillodd lu o anrhydeddau yn ystod ei oes. Ond uwchlaw popeth roedd o'n ddyn teulu. Bob tro y bydden ni ar lan y dŵr mi fyddai'r sgwrs yn troi at Jâms ac Anna, Manon a Madog. Ac fel pob taid balch mi fyddai wrth ei fodd yn adrodd eich hanes chi, ac ymfalchïo yn eich llwyddiannau. Roedd hi'n ddadlennol iawn mai'r hyn roedd o'n dymuno'i wneud i ddathlu ei ben blwydd yn bedwar ugain oed oedd cynnal cystadleuaeth bysgota rhwng aelodau'r teulu i gyd yn y llynnoedd yn Ystradowen, ac mi gafodd fodd i fyw y diwrnod hwnnw.

Wedi iddo ymddeol o'i waith fel Pennaeth y BBC yng Ngogledd Cymru, fe benderfynodd Alun sgrifennu cofiant i Sam Jones, pennaeth cyntaf y BBC ym Mangor. Y canlyniad wrth gwrs oedd iddo ennill doethuriaeth glodwiw am y gwaith, ac fe gawsom ni i gyd gyfle i fwynhau darllen y gyfrol 'Stand By.' Mae hi'n gronicl meistrolgar o hanes darlledu yng Ngogledd Cymru mewn cyfnod mor bwysig.

Rai blynyddoedd yn ôl mi aeth llond car ohonon ni draw i'r Liberty i weld y Swans yn chwarae ryw gyda'r nos. Alun, Rhys a Jâms, fi a Ioan fy mab ieuengaf. Ac ar y ffordd draw dyma Alun yn adrodd stori amdano'i hun yn hogyn ifanc iawn wedi gwirioni ar yr Elyrch o hirbell. Yr arwr mawr oedd Ivor Allchurch, ac un diwrnod mi benderfynodd sgrifennu llythyr at Ivor Allchurch yn gofyn gai o brynu pâr o sanau Abertawe. Roedd o wedi bod yn hel ei arian poced ac wedi prynu *'postal order'* i dalu am y sanau.

Wel i chi, un diwrnod dyma na barsel yn cyrraedd a phâr o sanau ynddo, a llythyr yn llaw-ysgrifen Ivor Allchurch ei hun yn dymuno'n dda i'r pêl-droediwr bach ifanc. Mi ruthrodd yntau i wisgo'r sanau, a beth oedd y tu mewn i un hosan ond y *postal order,* wedi'i ddychwelyd heb ei wario.

Y Cerflun o Ivor Allchurch

Erbyn i ni gyrraedd y Liberty, y peth cyntaf oedd rhaid ei wneud oedd cerdded draw at y brif fynedfa at y cerflun o'r arwr ei hun, i gyffwrdd yn nhraed Ivor Allchurch. A dyna oedd y drefn bob tro roedden ni'n mynd i'r Liberty. Roedd y digwyddiad bach yna wedi cyffwrdd yng nghalon plentyn nôl ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf, a gweithred mor anrhydeddus wedi serio ar ei feddwl. Ac mi wn i mai dyna'r union fath o beth fyddai Alun ei hun wedi'i wneud.

Ychydig fisoedd yn ôl mi gyhoeddodd Alun wrtha i ei fod o'n chwilio am brosiect newydd, a bod ganddo ffansi llunio cofiant i Richard Davies, Mynyddog, un arall o blant yr Hen Gapel, - bardd, canwr ac emynydd poblogaidd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac un a faged o fewn golwg i gartre Alun. Awdur geiriau'r gân Myfanwy, a Bys Meri Ann, gyda llaw. Ac mae'n ddiddorol iawn bod Alun wedi dewis un o'i emynau i gloi'r gwasanaeth hwn heddiw. Roedd Llanbryn-mair yn y gwaed y doedd.

Yn amlach na pheidio, pan fyddai hi'n amser i ni ei throi hi am adre o lan y dŵr, waeth faint o bysgod fyddai yn y fasged, waeth sut roedd y tywydd wedi bod, mi fyddai Alun yn edrych o'i gwmpas yn hamddenol, ac yn tro ata-i ac yn dweud, "Ond dydan ni'n lwcus!" A'r pnawn ma, wrth feddwl am R. Alun, ei gwmnïaeth a'i gyfraniad sylweddol i fywyd y genedl, i fywyd bob un ohonom ni'n bersonol, i achos Iesu Grist y Cymodwr, wrth feddwl am y fraint o gael adnabod Alun, mi fedrwn ninnau i gyd ddweud, yn medrwn: "Ond dydan ni'n lwcus!"

Emlyn Davies

Un arall o'i gydweithiwr o dyddiau'r rhaglen "Heddiw", Arwel Ellis Owen, fu'n talu'r deyrnged yng Nghapel Y Wenallt, yn yr Amlosgfa. Dyma ddetholiad o'i eiriau yn ystod yr oedfa.


Alun ar 'Heddiw', 1969

Tua'r amser yma o'r dydd, toc wedi dau o'r gloch y bydde Alun a minnau yn cyfarfod, bron bob dydd am yn agos i ddeng mlynedd. Alun yn cyflwyno Heddiw, rhaglen deledu, ddyddiol ar BBC Cymru, a fi yn rhyw gyw olygydd. Cyfnod llawn cyffro yn Hanes Cymru, o'r Arwisgo yng Nghaernarfon i'r Refferendwm aflwyddiannus cyntaf ar ddatganoli, gydag ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ddarlledu, a Mudiad Amddiffyn Cymru ar ail gartrefi, yn llenwi bron pob penwythnos.

Roedd cael cwmni a chefnogaeth Alun, drwy'r cyfnod hwnnw yn fonws aruthrol i mi, ac yn sicr i hanes darlledu yn y Gymraeg yng Nghymru. Amser llawn tensiwn i ddarlledwyr, oedd yn trio paratoi drafft cyntaf Hanes, tra bod y protestiadau ar ddatblygiadau gwleidyddol yn digwydd yn fyw o'n cwmpas.

Unigolyn oedd Alun oedd yn barod i herio ac amau priodoldeb rhai penderfyniadau golygyddol, tra hefyd yn cynnig ffordd ymlaen. Roedd yn gadarn ei farn bod mwy i ddarlledu cyhoeddus nag adlewyrchu cymdeithas, a bod dehongli digwyddiadau yn debyg o olygu hefyd bod y gwasanaeth yn mynd i ddylanwadu ar ddatblygiadau. Dyma gyfnod pryd oedd araith Tynged yr Iaith, Tryweryn a'r Swyddfa Gymreig newydd, yn gorgyffwrdd â bron pob peth oeddem ni yn ceisio ei wneud.

Roedd radicaliaeth hanesyddol Llanbrynmair, o SR i Iorwerth Peate, a thad Alun, y Parchedig Robert Evans, yn gryf yn DNA Alun. Felly hefyd dos gyfoethog o "fwynder Maldwyn".

Roedd yn ddarlledwr crefftus a chraff. Fel holwr, roedd yn gwrando, yn we o sglein a sylwedd, fel y nododd Derec Llwyd Morgan. Roedd yna agosatrwydd naturiol, a chyfoeth yn ei Gymraeg, llafar ac ysgrifenedig. Roedd yn awdur toreithiog ac yn sylwebydd penigamp. Cyfathrebwr gwych, gyda gwên barod, a llais y gellir ymddiried yn llwyr ynddo.

Hoffais yn fawr stori Betsan am sut y bydde ei thad yn paratoi, ac mi roedd paratoi yn bwysig i lwyddiant Alun, paratoi gogyfer a'i aml gyflwyniadau, boed hynny y briodas Frenhinol, neu seremoni'r Fedal Ryddiaith, neu gêm bêl-droed, yn arbennig gemau pêl-droed rhyngwladol, pryd y bydde angen cofio pwy oedd rhif pedwar Belarus, neu rif deg Hwngari. Mae'n debyg y bydde Alun wrth deithio i'r darllediadau hynny yn sylwi ar rifau ceir o'i flaen, ac yn gweiddi "rhif pedwar, Stanislavski", "rhif deg Olowlia". O nabod Alun, byddai yn ddiolchgar mai dim ond un ar ddeg o enwau oedd ganddo i'w dysgu. Dychmygwch y sialens oedd yn wynebu Huw Llywelyn Davies, a phymtheg o enwau Tîm Fiji i'w hynganu heb sôn am gofio pwy oedd pwy!

Ganwyd Alun yn Llanbrynmair, ar yr union ddiwrnod y rhoddwyd yr Ysgol Fomio ar dân yn Mhenyberth. Roedd ei dad yn Weinidog ac yn heddychwr o argyhoeddiad, gydag Alun, a'i frawd mawr, Ifan Wyn, yn cael eu galw yn "feibion y conshi" ar iard yr ysgol. Rai blynyddoedd yn ôl a minnau yn ymchwilio rhaglen ddogfen ar wrthwynebwyr cydwybodol, Niclas y Glais, Gwenallt a Merêd, i enwi tri, dyma ddarganfod bod gan y gwasanaeth cudd, MI5, ffeil ar y Parchedig Robert Evans, ei dad. Roedd Alun yn browd iawn o'r darganfyddiad hwnnw, a dim rhyfedd bod ei gyfaill, John Gwilym Jones, wedi dweud ar Bwrw Golwg, fod heddychiaeth yn argyhoeddiad canolog i Alun, a bod deall pan roedd Alun eisiau bod 'run fath a'i dad yn sylfaenol i unrhyw adnabyddiaeth o'r cymeriad unigryw y tyfodd o i fod.

Mae rhywbeth eironig am y gyfathrach rhwng Alun a'i dad, a'r ffaith mai drwy wylio Alun yn actio yn y ddrama 'Y Tad a'r Mab', y daeth Rhiannon i gyfarfod y myfyriwr o Fangor oedd a'i fryd o bosib ar y pryd ar fod yn actor. Aeth Rhiannon a'i ffrind gefn llwyfan wedi'r perfformiad, ond gwrthod unrhyw gymorth i ddadwisgo a chael gwared o'r colur wnaeth yr hync o Goleg Bala Bangor. Ond doedd Alun, bryd hynny, ddim yn gwybod am ddyfeisgarwch a phendantrwydd y ferch o Geredigion. Fe ffeindiodd yr athrawes oedd yn dysgu yn Ninbych, fod Alun yn pregethu yn Rhos y penwythnos hwnnw. Mae llawer ohonom yma heddiw yn gwybod pa mor amhosibl yw dweud "na" wrth Rhiannon, felly oedd hi i Alun. A dyma ddechrau carwriaeth arweiniodd at 62 mlynedd o briodas hapus. Os bu na "power couple" o Gymru, dyma i chi y bartneriaeth ddelfrydol honno, y ddau yn mynnu elfen o annibyniaeth, ond yn cyd-ddyheu ac yn cydweithio ac wrth gwrs yn cydganu. Alun yn dianc weithiau i bysgota, a Rhiannon yn troi i'r ardd i blannu tatws newydd.

Fe soniais am yrfa Alun fel cyflwynydd, ond cyfnod byr oedd hwnnw o'r 32 o flynydde y bu Alun yn gwasanaethu'r Gorfforaeth. Fe symudodd o gyflwyno Heddiw i fod yn bennaeth y Ganolfan Ddarlledu ym Mangor, gan chwarae rhan bwysig yn natblygiad Radio Cymru yn ogystal â sefydlu Bryn Meirion yn ganolfan aml gyfryngol yn y Gogledd. Fe ddatblygodd Alun yn rheolwr a gweinyddwr hynod effeithiol, gyda pharch uchel i'w steil o gyfathrebu â'i staff. Fe fu'r profiad o redeg Canolfan o gymorth aruthrol i'r Eisteddfod, pan ddaeth Alun yn Gadeirydd cyntaf Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod, a'i gyfraniad i osod sylfaen ariannol cadarn yn ogystal â moderneiddio'r Ŵyl, a sicrhau rôl a lle pwrpasol i'r genhedlaeth iau. Dim rhyfedd fod yr Eisteddfod wedi ei wneud yn Gymrawd, Prifysgol Cymru yn ei anrhydeddu gyda gradd Doethur, ac Undeb yr Annibynwyr yn ei ethol yn Llywydd. Tipyn o gamp. Tipyn o foi.

Dyn teulu oedd Alun, yn naturiol ddigon yn ymhyfrydu yn llwyddiant Rhys a Betsan a'r pedwar ŵyr a wyres, a does rhyfedd bod y ddau blentyn wedi dilyn ôl troed eu tad. Rhys i fyd y ddrama a Betsan i'r cyfryngau. Mae'r ddau yn driw i ddaliadau di-droi-nôl Alun, sef gwnewch eich gorau, paratowch yn drwyadl, cofiwch fod yna ddyletswydd i'w chyflawni. O ie, a pheidiwch bod yn hwyr. Mae'r ddau yn cofio bod llyfrau idiomau a diarhebion Cymraeg o fewn cyrraedd i'r bwrdd swper. A'r bwrdd brecwast!

Mae yna gylch i fywyd. Fe ddechreuodd ei yrfa yn y Weinidogaeth yn Llandysul a'i gorffen ym Methel, Caerffili, a Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Do fe fu yn un o blant yr "anialwch gweinidogaethol" a swapio'r pulpud am Stiwdio, ond yn ôl y daeth a hynny am fod yr "alwad i wasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist yn gryfach na dim arall."

Dwi'n cofio ffilmio portread o Syr David Hughes Parry, y barnwr ar ysgolhaig cyfreithiol, gydag Alun yn ei holi. Ffilmio Syr David yn ei ddosbarth ysgol Sul a hwnnw yn troi ar Alun a'i gyhuddo o droi cefn ar y weinidogaeth, er bod Alun wedi pregethu bron bob Sul drwy gydol ei gyfnod yn y Gorfforaeth, gan gynnwys 68 mlynedd yn ddi-dor pob mis Awst, yng Nghwm Nant yr Eira. Dwi'n cofio ateb Alun, gan iddo ddyfynnu cerdd gan Waldo, dyfyniad gyda llaw, y llefarodd yn ei bregeth olaf yn y Gwaelod nôl ym mis Mehefin.

"Beth dw i wedi ei wneud" meddai'r Annibynnwr balch, wrth yr arch-Bresbyteriad o Lanuwchllyn "yw mentro allan i'r afresymol fôr" gan ychwanegu ei fod wedi derbyn yr hyn oedd ar gael, derbyn pob her, a "dangos bod byw yn golygu mwy na bodoli". Dyna Alun i mi. Heddwch i'w lwch.

Arwel Ellis Owen